# RHOI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD



# Strategaeth 2026 - 2030

thewallich

Herio digartrefedd gyda'n gilydd

Elusen Gofrestredig Rhif: 1004103

# Cynnwys

50 mlynedd o The Wallich

Mae Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd YN bosibl

Y Ffordd hyd at 2030

Maes Ffocws Strategol:

1. Ansawdd - Ydyn ni'n diwallu anghenion pawb?
2. Effaith - A yw ein gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd
3. Cynaliadwyedd - Ydyn ni'n cynllunio ar gyfer dyfodol pawb?

"Gweithio gydag unigolion, nid ar eu rhan. Annog unigolyn i godi ei lais a magu hyder i adrodd ei stori ei hun. Peidio â manteisio ar rywun er mwyn cael cyfle da i dynnu llun. Grymuso unigolion a grwpiau. Eu helpu ar eu taith, nid eu gwthio a'u gorfodi i wneud newidiadau a phenderfyniadau eithafol. Dyma rai pethau mae The Wallich yn eu gwneud yn dda, ac rwy'n ffyddiog y bydd hynny'n parhau."

Aled Miles-Yates, Cadeirydd Bwrdd Cysgodol sydd â Phrofiad Uniongyrchol o Ddigartrefedd The Wallich

"Wyt ti erioed wedi cysgu allan - nid o ddewis ond am nad oedd gen ti unman i fynd? Neu a yw'r 'rhai sy'n ddigartref' yn bobl rwyt ti'n eu cysylltu'n ddidaro hysbysebion sy'n eu dangos yn ceisio lloches a phenawdau yn dy bapur dyddiol sy'n dy frawychu?"

Anton Wallich-Clifford. No Fixed Abode (1989)

"Mae The Wallich yn sefydliad sy'n wahanol i'r rhan fwyaf rydw i wedi'i weld. Mae dros draean o'r bobl rydyn ni'n eu cyflogi wedi bod yn ddigartref mewn rhyw ffordd. Mae'r tosturi, yr ymdeimlad o gadw ein traed ar y ddaear, a'r ymrwymiad i ddangos empathi tuag at bobl yn eu sefyllfa bresennol, yn amlwg. Maen nhw'n dîm gwych, sy'n rhoi angerdd gwirioneddol ar waith. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar ein cryfderau, sef sefydliad sy'n seiliedig ar gariad, gwneud y peth iawn a gwybodaeth ddofn am yr hyn sy'n gweithio. Alla i ddim aros i weld beth allwn ni ei wneud dros y pum mlynedd nesaf gyda'n gilydd."


Oliver Townsend, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr The Wallich

"Yn aml, dim ond gobaith sydd gan y bobl rydyn ni'n eu cefnogi. Gobeithio y byddan nhw'n gallu gwireddu'r bywyd maen nhw'n breuddwydio amdano. Gobeithio y bydd fory yn fwy disglair. Gobeithio y bydd ganddyn nhw eu cartref eu hunain rhyw ddydd. Gobeithio y bydd ganddyn nhw sefydlogrwydd. Ein gwaith ni yn The Wallich yw meithrin y gobaith hwnnw; chwalu rhwystrau, dod o hyd i atebion a gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i droi digartrefedd yn rhan o'u gorffennol, nid eu dyfodol."

Sian Aldridge, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro The Wallich

# 50 mlynedd o The Wallich



*










## Ni yw The Wallich.

**Yn 2028 rydyn ni'n nodi 50 mlynedd o weithio i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.**

Dechreuodd ein stori yn 1978 pan gyfarfu Fred Josef a Jane Elvin yng Nghaerdydd.

Rhyngddynt, roedd ganddynt brofiad o ddigartrefedd, toreth o dosturi a thomen o egni. Roedden nhw'n cydnabod yr anawsterau ar y strydoedd o'u cwmpas. Fe wnaethon nhw ddewis gweithredu.

Wedi'i ysbrydoli gan y mudiad cymunedol yr oedd Fred wedi bod yn ymwneud ag ef yn Llundain, a chyda bendith sylfaenydd elusen Simon Community, sef Anton Wallich-Clifford, fe wnaethant agor tŷ cymunedol bach yn Adamsdown. Roedd yn cynnig mwy na gwely. Roedd yn cynnig diogelwch, dealltwriaeth a gobaith.

Yn dilyn hyn, ganwyd Cymuned Wallich Clifford.

**Dechreuodd The Wallich fel lloches i 6 o bobl ifanc yng Nghaerdydd, ac fe dyfodd yn fudiad cenedlaethol, gan ddarparu dros 100 o wasanaethau ledled Cymru a chynnig dros 400 o welyau bob nos.**

Mae ein gwaith bob amser wedi cael ei siapio gan dosturi, urddas a chysylltiad, ac mae wedi'i wreiddio mewn profiad uniongyrchol o ddigartrefedd.

Heddiw, mae The Wallich yn parhau i anrhydeddu gweledigaeth ein sylfaenwyr drwy ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'r miloedd o bobl rydyn ni'n eu cefnogi ar eu taith allan o ddigartrefedd.

* Portread o Anton Wallich-Clifford. Drwy garedigrwydd The Simon Community.



## The Wallich heddiw

**Mae 1 o bob 3 o bobl sy'n gweithio yn The Wallich wedi profi digartrefedd neu galedi**

### Gweledigaeth

Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd drwy gynnig gobaith, cefnogaeth ac atebion sy'n para.

Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino ochr yn ochr â'n staff, ein partneriaid ac - yn bwysicaf oll - y bobl rydyn ni'n eu cefnogi. Rydyn ni'n credu bod gan bawb yr hawl i gartref, yn ogystal â theimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n gadarnhaol am eu dyfodol.

### Cenhadaeth



**Cael pobl oddi ar y strydoedd**

Drwy allgymorth, ymyriadau cysgu allan a gwasanaethau galw heibio, rydyn ni'n ymateb ar unwaith gyda chymorth, hanfodion, cyngor a llwybrau clir allan o ddigartrefedd.



**Cadw pobl oddi ar y strydoedd**


Rydyn ni'n cynnig llety â chymorth a gwasanaethau arbenigol. Rydyn ni hefyd yn helpu i atal digartrefedd drwy gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi a chynnal eu llesiant.



**Creu cyfleoedd i bobl**


Drwy ddysgu, cyflogaeth, gwirfoddoli a phrosiectau creadigol, rydyn ni'n helpu pobl i feithrin sgiliau, adennill hyder ac ailgysylltu â'u cymunedau.

### Gwerthoedd



**Yn ddewr**

Rydyn ni'n sefyll dros yr hyn sy'n iawn, yn herio ein hunain ac yn arloesi ffyrdd newydd o greu newid.



**Yn benderfynol**

Wnawn ni ddim rhoi'r gorau iddi. Hyd yn oed pan fydd pethau'n anodd, rydyn ni'n dal i ganolbwyntio ar sicrhau newid parhaol i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.



**Yn ddiffuant**

Rydyn ni'n gweithio ar y rheng flaen, yn cerdded ochr yn ochr â phobl ac yn defnyddio profiadau uniongyrchol a phrofiadau cyfoedion i siapio ein gwaith.



**Yn drugarog**

Bob amser. Rydyn ni'n gwrando heb farnu ac yn ymateb gydag empathi a charedigrwydd, bob amser.



**Yn gymuned**

Mae pawb yn haeddu perthyn yn rhywle. Rydyn ni'n gwerthfawrogi cynhwysiant, partneriaeth a pharodrwydd i dderbyn ac rydyn ni'n cefnogi ein gilydd fel teulu.

## Trawma

Deall stori rhywun yw'r cam cyntaf tuag at newid. Dyna pam rydyn ni'n creu amgylcheddau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gweld.

Mae llawer o'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi wedi profi trawma, ond dydy trawma ddim yn eu diffinio. Mae gwella yn dechrau gyda pherthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, empathi a chysondeb. Mae pob cysylltiad yn gyfle i feithrin diogelwch, hyder a gobaith.

Dydy perthnasoedd ddim yn rhywbeth ychwanegol yn ein gwaith; dyma yw ei sylfaen.

## Wedi'i wreiddio mewn profiad uniongyrchol



**Y tu ôl i bob ystadegyn mae unigolyn yn ceisio goroesi**

Mae ein gwasanaethau wedi'u seilio ar ddealltwriaeth ddofn o realiti digartrefedd - gan ymateb i anghenion uniongyrchol rhywun a dod o hyd i atebion hirdymor i helpu pobl.

Rydyn ni'n cyflawni camau gweithredu amlwg ac arloesol, gan gynnwys Tai yn Gyntaf, ymarfer sy'n ystyriol o drawma a rhaglenni creadigol. Nid prosiectau ymylol yw'r rhain; maen nhw'n ganolog i'r ffordd rydyn ni'n gweithio a lle rydyn ni'n anelu at ragoriaeth.

**Mae gan bob unigolyn ei stori ei hun**

**Mae llawer o wahanol lwybrau a all arwain at ddigartrefedd**

Mae ein strategaeth yn feiddgar ac yn syml: rhoi diwedd ar ddigartrefedd drwy ddealltwriaeth, tosturi ac arloesi - gan sicrhau bod pob person yn gallu byw gydag urddas, diogelwch a gobaith.

Anaml iawn y mae digartrefedd yn fater sy'n ymwneud â thai yn unig. Mae'n aml yn gysylltiedig â heriau dyfnach fel iechyd gwael, trawma, teimlo'n ynysig, neu berthnasoedd wedi chwalu.

Yn The Wallich, rydyn ni'n gweld yr unigolyn yn gyntaf - ei gryfder, ei botensial a'i obaith am ddyfodol gwell.

Gall y daith allan o ddigartrefedd fod yn hir, yn ansicr ac weithiau'n frawychus. Ond ni ddylai neb orfod cerdded ar ei ben ei hun. Mae ein staff yno bob cam o'r ffordd - yn cynnig cefnogaeth, tosturi a gofal cyhyd ag y bo angen.






**Rydyn ni'n gwybod bod rhoi diwedd ar gysgu allan yn bosibl. Ond mae angen i bob un ohonom - gan weithio gyda'n gilydd gydag ymrwymiad gwirioneddol ac ewyllys wleidyddol - wneud i hyn ddigwydd.**

Yn ystod pandemig Covid-19, dangosodd y fenter Pawb i Mewn ("Everyone In") beth sy'n bosibl pan fyddwn ni'n gweithredu fel un. Mewn ychydig fisoedd, cafodd cannoedd o bobl eu tynnu oddi ar y strydoedd. Profodd bod rhoi terfyn ar gysgu allan ledled Cymru yn bosibl.

Ni ddylai cysgu allan fod wedi dychwelyd, dylen ni fod wedi canolbwyntio ar atal ac yna lleihau nifer y bobl mewn llety dros dro.

**Dylai gwasanaethau digartrefedd ymhen 50 mlynedd edrych yn hollol wahanol**

Mae pwysau newydd yn gwthio mwy o bobl i ddigartrefedd. Mae'r argyfwng costau byw, prinder tai fforddiadwy a thoriadau i wasanaethau cyhoeddus yn gadael llawer heb unman i droi. Mae'r galw'n cynyddu, mae adnoddau dan bwysau ac mae'n anoddach cyrraedd sefydlogrwydd.

2026 yng Nghymru: Mae bron i **11,000 o bobl** mewn llety dros dro, dros **130 o bobl** yn cysgu allan, ac mae tua **7,000 o bobl** y flwyddyn yn defnyddio gwasanaethau The Wallich mewn **131 o leoliadau**.





**Nid dyma'r dyfodol yr oedd gan ein sylfaenwyr, Jane a Fred dan sylw, ac nid yw'n rhywbeth y dylen ni ei dderbyn**

Rydyn ni'n addo sefyll gyda'n gilydd eto, ar draws y sector a thu hwnt. Gan gyfuno ein cryfder, ein tosturi a'n penderfyniad, gallwn fynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol a manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym.

**Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod gan bawb le i'w alw'n gartref**

Mae ein pwrpas yn dal yn glir: rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac ailadeiladu bywydau. Wrth i Gymru symud tuag at newid gwleidyddol mawr, gan gynnwys effaith bosibl Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), rhaid i'r rheini sydd mewn grym ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud digartrefedd yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

Fel rhan o fudiad cenedlaethol, rydyn ni'n ymrwymo i fod yn bartner cryf y gellir ymddiried ynddo ac i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ble y byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

* Llun (chwith): Sylfaenwyr The Wallich, sef Fred Josef a Jane Elvin.
Llun (dde): Jane Elvin a'i merch Jess Turtle. Drwy garedigrwydd yr Amgueddfa Digartrefedd.



# Y Ffordd hyd at 2030

## Ein blaenoriaethau

Yn The Wallich, mae ein huchelgeisiau'n fawr, hyd yn oed pan fydd ein hadnoddau'n gyfyngedig. Dyna pam rydyn ni wedi gwrando'n helaeth; wedi cyd-gynhyrchu ein strategaeth gyda'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi, ein staff a'n rhanddeiliaid i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

**Meysydd ffocws strategol**




Maw **Ansawdd** yn sicrhau **sut** rydyn ni'n darparu cymorth diogel, cyson a thosturiol. **Ydyn ni'n diwallu anghenion pawb?**


Mae **Effaith** yn sicrhau **pam** ein bod yn gwneud ein gwaith ac yn arwain at newid gwirioneddol y tu hwnt i wasanaethau unigol. **A yw ein gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth?**

Mae **Cynaliadwyedd** yn sicrhau y gallwn barhau i sicrhau ansawdd ac effaith am flynyddoedd i ddod. **Ydyn ni'n cynllunio ar gyfer dyfodol pawb?**

**Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu fframwaith clir a chydgysylltiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau, atebolrwydd ac arweinyddiaeth hirdymor i roi diwedd ar ddigartrefedd ledled Cymru**

# Ydyn ni'n diwallu anghenion pawb?

## Ansawdd




**Rydyn ni'n cefnogi Tom,** cyn-filwr sydd, ar ôl dioddef gwaedlif ar yr ymennydd, wedi cael ei droi allan o'i gartref heb unrhyw fai arno ef ei hun ac sydd wedi byw mewn llety dros dro ers bron i 3 blynedd. Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i gartref sy'n darparu ar gyfer ei anabledd ond, gyda chefnogaeth The Wallich a'i gyngor lleol, mae gan Tom gartref addas dros dro o leiaf, sy'n ei gadw'n ddiogel ac mewn cyswllt â'i gymuned.

## Pobl sy'n dod gyntaf. Bob amser

### 1. Cefnogi pobl i ffynnu

***Rydyn ni eisiau i bobl deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi mewn ffyrdd sy'n eu helpu i greu dyfodol gwell.***

Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu deall a'u cefnogi. Rydyn ni'n arwain gydag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n darparu ar gyfer profiadau trawmatig, ar draws popeth a wnawn, o gyflawni gwasanaethau i lywodraethiant ein helusen. Rydyn ni'n gwrando - rydyn ni'n gweithredu. Mae eu nodau, eu cryfderau a'u huchelgeisiau yn llywio pob penderfyniad a wnawn, gan siapio gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma sy'n eu helpu i adeiladu'r bywyd maen nhw ei eisiau.

Rydyn ni'n credu mai pobl sy'n gwybod orau beth sydd ei angen arnyn nhw i ffynnu. Ein rôl ni yw cael gwared ar rwystrau, cynnig cefnogaeth a sefyll ochr yn ochr â nhw - bob cam o'r ffordd.





### 2. Mannau diogel i bawb

***Rydyn ni eisiau i holl fannau The Wallich fod o safon sy'n gyson - lle bynnag maen nhw.***

Mae pob man yn ddiogel. Mae pob man yn groesawgar. Mae pob man yn darparu.

Byddwn yn buddsoddi mewn amgylcheddau diogel a chroesawgar o ansawdd uchel sy'n lân, yn hygyrch ac yn gynaliadwy. Bydd safonau clir wedi'u cyd-gynhyrchu yn diffinio beth mae da yn ei olygu, a byddwn yn rheoli risg yn rhagweithiol i atal niwed. Bydd yr ansawdd yn gyson, yn fesuradwy ac yn gwella'n barhaus.

### 3. Arbenigwyr â phwrpas

***Rydyn ni eisiau gweithlu medrus, hyderus a phenderfynol i adlewyrchu ein gwerthoedd a'n cymorth o ansawdd uchel.***

Byddwn yn buddsoddi yn ein pobl. Maen nhw'n gwneud ein heffaith yn bosibl.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan bob aelod o gymuned The Wallich fynediad at y sgiliau cywir, ynghyd â llesiant a datblygiad gweithwyr. Pan fydd ein pobl yn ffynnu, bydd popeth a wnawn yn gryfach ac yn fwy effeithiol.



"Treuliais 13 mlynedd yn disgwyl am gartref parhaol."

### 4. Cymorth y gallwch ymddiried ynddo, safonau y gallwch eu gweld

***Byddwn yn sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r un ansawdd - lle bynnag y maent.***

Byddwn yn gosod safonau gwasanaeth. Byddwn yn mesur. Byddwn yn gwella bob dydd.

Byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw cymorth o ansawdd uchel yn loteri cod post. Byddwn yn gwrando, yn dysgu ac yn gweithredu i wella gwasanaethau. Byddwn yn dal ein hunain yn atebol am ein perfformiad, yn sbarduno arferion gorau yn ein gwasanaethau ac yn creu canlyniadau gwell i bobl. Byddwn yn mesur ansawdd gwasanaethau gan ddefnyddio dangosyddion clir ac ystyrlon ac yn gwrando'n astud ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, staff, partneriaid a chyllidwyr, gan weithredu lle mae hynny'n bwysig.

### 5. Lleisiau dros newid

***Rydyn ni eisiau i brofiad uniongyrchol, lleisiau staff a chynhwysiant go iawn ddylanwadu ar The Wallich a thu hwnt.***

Byddwn yn rhoi megaffon i'r rheini sy'n ddigon dewr i godi eu llais. Byddwn yn dysgu o'r hyn sy'n gweithio ac yn addasu pan fydd angen newid. Byddwn yn gwneud penderfyniadau **gyda phobl, nid drostynt**.

Byddwn yn gwreiddio cyfleoedd i bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd ddylanwadu ar wasanaethau, polisïau a syniadau yn The Wallich, yn y sector a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae ymgynghori a chydweithio yn siapio ein strategaeth, ein gwasanaethau a'n dyfodol. Drwy ystyried, dysgu a rhannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, byddwn yn dod yn gatalydd ar gyfer newid ar draws y sector ac yn meithrin diwylliant o gynhwysiant, arloesi a gwelliant parhaus.

# A yw ein gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth go iawn?

## Effaith




**Rydyn ni'n cefnogi Andre,** a dreuliodd 11 mis yn byw mewn coedwig ar ôl i'w landlord roi rhybudd troi allan dim bai iddo. Ar ôl treulio rhywfaint o amser yn un o'n prosiectau llety â chymorth, mae gan Andre ei gartref ei hun erbyn hyn, mae'n mwynhau coginio ac mae'n gwirfoddoli yn ei gymuned leol.

## Byddwn yn arwain y newid i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno

### 1. Atal digartrefedd

***Rydyn ni eisiau i gymunedau fod mewn sefyllfa well i atal digartrefedd - cyn argyfwng.***

Byddwn yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o ddigartrefedd, pam ei fod yn digwydd a sut y gellir ei atal. Byddwn yn cefnogi cymunedau, partneriaid ac arweinwyr lleol i weithredu'n gynnar a rhoi terfyn arno cyn iddo ddechrau.

Byddwn yn herio stigma, yn newid agweddau drwy addysg ac ymgyrchoedd cyhoeddus, ac yn siarad am yr achosion sylfaenol, gan gynnwys tlodi ac anghydraddoldeb. Byddwn yn pwyso am weithredu y tu hwnt i bolisi adweithiol. Byddwn yn hyrwyddo camau gweithredu sy'n creu newid parhaol ac ystyrlon.





### 2. Mewn undod mae nerth

***Rydyn ni eisiau partneriaethau cryfach sy'n sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.***

Byddwn yn meithrin partneriaethau sy'n sicrhau effaith wirioneddol.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau, cyllidwyr, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lunio atebion sy'n helpu pobl. Byddwn yn cyfuno ymdrechion, yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac yn cryfhau gweithredu ar y cyd. Iechyd cynhwysiant sy'n dod gyntaf, gan sicrhau bod y rhai sy'n cael eu heithrio fwyaf yn cael cymorth cydlynol sy'n seiliedig ar drawma.

### 3. Gweiddi nerth ein pen

***Rydyn ni eisiau i The Wallich gael ei gydnabod fel arweinydd dibynadwy ym maes digartrefedd a thrawma yng Nghymru.***

Byddwn yn gweiddi'n uwch am bwy rydyn ni'n eu helpu, pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud yng Nghymru.

Byddwn yn hyrwyddo cefnogaeth, polisïau a chyllid sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phrofiad uniongyrchol. Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn llywio popeth a wnawn yn ein sefydliad ac ar draws y sector. Byddwn yn hyrwyddo Tai yn Gyntaf go iawn, oherwydd mae pawb yn haeddu urddas cartref diogel.




### 4. Profi beth sy'n gweithio

***Rydyn ni eisiau dangos effaith go iawn ar fywydau go iawn.***

Rydyn ni am i effaith gael ei diffinio'n glir, ei mesur yn gyson a'i rhannu'n eang.

Byddwn yn dangos beth sy'n gweithio ac yn adeiladu tystiolaeth o'r effaith go iawn ar fywydau go iawn drwy adrodd straeon sy'n ystyriol o drawma a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Byddwn yn dathlu llwyddiannau, yn wynebu heriau'n onest ac yn defnyddio popeth a ddysgwn i wella, meithrin ymddiriedaeth a dylanwad.

### 5. Sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl

***Rydyn ni am i'n gwasanaethau fod yn hygyrch, yn deg ac yn ymatebol i anghenion ledled Cymru.***

Byddwn yn nodi bylchau ac anghenion heb eu diwallu i arwain buddsoddiad yn y dyfodol, gan ymestyn ein cyrhaeddiad drwy ganolfannau cymunedol, gwasanaethau lleol a darpariaeth symudol, gan ddod â mwy o gymorth yn uniongyrchol i bobl lle a phryd mae ei angen fwyaf.

Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n glir, yn gynhwysol ac yn hygyrch, er mwyn i bawb allu dod o hyd i gymorth teg ac amserol, a'i dderbyn.

# Ydyn ni'n cynllunio ar gyfer dyfodol pawb?

## Cynaliadwyedd




**Rydyn ni'n cefnogi Adele,** sydd wedi cael cymorth gan wasanaeth arbenigol menywod The Wallich, ar ôl profi cam-drin domestig, cysgu allan a chymhlethdodau yn sgil defnyddio cyffuriau ac sydd bellach yn ddiogel ac ar y trywydd iawn i wella, bod yn annibynnol ac yn hapus. Ar ôl graddio o'n rhaglen hyfforddi, mae Adele yn edrych ymlaen at symud i'w chartref ei hun ac ailddechrau ei gyrfa fel mecanig.

## Byddwn yn creu newid parhaol

### 1. Torri'r cylch, achub bywydau

***Rydyn ni eisiau rhoi diwedd ar ddigartrefedd i bawb, gan gynnig diogelwch, sefydlogrwydd a'r sylfaen i ailadeiladu eu bywydau.***

Mae iechyd, hapusrwydd, cariad a sefydlogrwydd yn sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd.

Byddwn yn cefnogi pobl i roi'r gorau i ymladd, ffoi neu rewi, ac i beidio â bod yn sownd yn y presennol na'r gorffennol dim mwy. Byddwn yn cyflawni gwasanaethau arloesol sy'n creu cyfleoedd llawen, iach a llewyrchus i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gadarnhaol am eu dyfodol. Byddwn yn gwrthod derbyn effeithiau allgau sy'n byrhau bywyd. Drwy hyrwyddo cynhwysiant iechyd a lleihau niwed, gallwn atal marwolaethau, lleihau anghydraddoldeb a helpu pobl i fyw bywydau hirach.



### 2. Timau iach sy'n cael eu cefnogi

***Rydyn ni eisiau gweithlu sefydlog sy'n cael ei gefnogi ac sy'n dewis aros a thyfu gyda'r sefydliad.***

Mae timau iach sy'n cael eu cefnogi yn gwneud popeth yn bosibl.

Byddwn yn cynnig gwobrau teg a chystadleuol wrth flaenoriaethu llesiant a gwydnwch staff, gan gydnabod heriau ein gwaith. Byddwn yn cynnig llwybrau datblygu ac arwain clir ac yn meithrin diwylliant cynhwysol, cydweithredol sy'n ystyriol o drawma lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i sicrhau bod ein gweithlu'n dewis aros.

### 3. Dyfodol ariannol gwydn

***Rydyn ni eisiau sefydliad sy'n llai dibynnol ar gyllid tymor byr neu gyllid un ffynhonnell.***

Heb gryfder ariannol, allwn ni ddim sbarduno ein cenhadaeth. Mae gwasanaethau sy'n cynnal teithiau allan o ddigartrefedd, gan gynnwys cyflogaeth, gwirfoddoli a rhaglenni celfyddydol, yn dibynnu ar incwm a godir er mwyn darparu'r pethau hyn. Mae'r gwasanaethau hyn yn gatalydd i gysylltu pobl â'u cymunedau a'u dyfodol.

Byddwn yn cynyddu'r gwaith codi arian drwy fuddsoddi yn y bobl, y perthnasoedd a'r systemau y tu ôl iddo - gan adeiladu incwm amrywiol a gwydn sy'n dwysáu ein heffaith. Byddwn yn datblygu cyfleoedd masnachu sy'n adlewyrchu ein harbenigedd a'n profiad uniongyrchol, gan gadw ein diben elusennol wrth galon pob penderfyniad bob amser.



*"Maen nhw wedi gwneud y daith yn un anhygoel, wedi sicrhau bywyd gwell i mi, wedi fy nghynghori, wedi fy llywio i'r cyfeiriad iawn ac wedi fy annog bob amser i wneud yn dda gan fy mod i'n berson da."*

### 4. Effeithlonrwydd ac arloesi

***Rydyn ni am gael adnoddau, systemau a thechnoleg sy'n cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithlon i gefnogi gwell gwasanaethau a phenderfyniadau.***

Systemau mwy clyfar, cymorth gwell.

Byddwn yn defnyddio technoleg, data a phrosesau symlach i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy effeithiol, gwella gwasanaethau a sicrhau ansawdd i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

### 5. Gofalu am bobl, lle a'r blaned

***Rydyn ni eisiau hinsawdd nad yw'n gwneud unrhyw niwed i bobl, eu hamgylchedd na'u cymunedau***

Byddwn yn ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob rhan o'n gwaith, o ddefnyddio ynni i leihau gwastraff, ac yn creu mannau gwyrddach sy'n cefnogi ein cymunedau. Byddwn yn olrhain ein heffaith amgylcheddol ac yn arwain prosiectau sy'n diogelu iechyd meddwl, yn torri'r cylch digartrefedd ac yn tynnu sylw at sut mae'r argyfwng hinsawdd yn taro'r rhai sydd ar y strydoedd galetaf.

Byddwn yn ymrwymo i greu gweithle nad yw'n gwneud unrhyw niwed i ddiogelu llesiant seicolegol a diogelwch corfforol ein staff. Byddwn yn datblygu polisïau ac arferion sydd eu hangen ar bawb yn ein cymuned i ffynnu.

Byddwn yn anrhydeddu'r 50 mlynedd o etifeddiaeth yn The Wallich.

Dros y 50 mlynedd nesaf, byddwn yn:

# HERIO DIGARTREFEDD GYDA'N GILYDD

---

thewallich

Elusen Gofrestredig Rhif: 1004103